

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1222
Ein cyf/Our ref JJ/11923/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

18 Tachwedd 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1222 Gwahardd barbeciws tafladwy o'n Parciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Thraethau Cymru.

Mae nifer o ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol wedi'u cynnal ynghylch mynediad cyfrifol i gefn gwlad. Rydym wedi gweithio'n agos gydag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ar negeseuon ers dechrau cyfyngiadau COVID, yn enwedig o ran hamdden gyfrifol. Arweiniodd hyn at ymgyrch farchnata Croeso Cymru i annog ymddygiad cyfrifol yng nghefn gwlad a gyrhaeddodd nifer fawr o bobl ar fysiau, gwasanaethau traffyrdd, ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Canolbwyntiwyd yn arbennig ar negeseuon penodedig mewn perthynas â risgiau barbeciws untro a dim ond cynnau tanau mewn mannau dynodedig.

O ran y difrod tân a achosir i'n Parciau Cenedlaethol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a thraethau Cymru drwy gamddefnyddio barbeciws, mae'r mwyafrif helaeth o danau mewn glaswelltir ac ardaloedd a ragwelwyd yn cael eu cynnau'n fwriadol ac yn faleisus, nid gan farbeciws. Rydym wedi lleihau yn sylweddol nifer y tanau o'r fath yn ystod y blynyddoedd diwethaf drwy raglen o gydweithio rhwng y Gwasanaeth Tân, yr Heddlu, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill i atal pobl rhag cynnau tân bwriadol ac ymateb yn gyflym i danau sy'n digwydd. Dyma ein prif ffocws o hyd. Er bod tanau damweiniol, fel y rhai a ddechreuwyd gan farbeciws a stofiau gwerysyla, hefyd yn bryder, mae'r risgiau dan sylw yn gymharol fach.

Yn gywir,

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.